Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwnaed ymdrech arbennig gennym i geisio casglu digon o 'vouchers Lifestyle' er mwyn cael fideo i'r ysgol. O'r diwedd cyrhaeddwyd y nod ac erbyn hyn mae'r fideo ar y ffordd. Carwn ddiolch yn gynnes iawn i rieni a chyfeillion am yr ymdrech arbennig hon. Yr ydym yn dal i gasglu - felly peidiwch â thaflu'r tocynnau bach gwyrdd- mae gennym ddefnydd iddynt o hyd!

Bellach daeth tymor yr hoci, y bêl-droed a'r rygbi i ben a chyfle yn awr i ymarfer dipyn ar y tenis a'r criced. Cymerodd nifer o'r plant ran yng nghystadleuaeth traws-gwlad yr Urdd yn Aberystwyth ddechrau Ebrill a sawl un yn dangos addewid i'r cyfeiriad hwn.